# papur

priordy



## OS DUW SYDD AR F'ENAID EI EISIAU,
## MAE EISIAU FY ENAID AR DDUW:
## O GARIAD HEB DDIWEDD NA DECHRAU,
## AR GARIAD MOR RHYFEDD 'RWY'N BYW.

Elfed - Caneuon Ffydd : 208

*Dewiswyd gan Irene Williams, Tir Ysgawen, Llangynnwr. Gweler y tu mewn am ei rheswm dros ei dewis*

Rhifyn 296

PAPUR IONAWR 2017

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## BETH SYDD MEWN ENW?




***BLWYDDYN NEWYDD DDA*** i bob un ohonoch.


Wrth i un flwyddyn ddirwyn i ben a chyn i'r flwyddyn newydd wawrio, daw pob math o ystadegau atom drwy'r cyfryngau i'n hatgoffa am ddigwyddiadau'r 12 mis diwethaf.

Bydd rhai'n mynd i'r drafferth o greu ystadegau sy'n cofnodi pob math o ddigwyddiadau ac yn eu cymharu ag ystadegau'r blynyddoedd gynt. Un o'r ystadegau a gyhoeddwydd gan Cymru Fyw a'r Swyddfa Ystadegau (ONS) oedd y rhestr ddiweddara' o'r enwau mwyaf poblogaidd, o darddiad Cymreig, a gafodd eu cofrestru'r llynedd (2015) yng Nghymru.

Enwau o darddiad Cymreig yn 2015 (a'u safle ar y rhestr yn 2014 mewn cromfachau):

**Bechgyn**

1. Dylan (1)
2. Osian (3)
3. Harri (2)
4. Jac (6)
5. Rhys (4)
6. Evan (5)
7. Tomos (8)
8. Cai (9)
9. Ioan (10)
10. Morgan (7)



Mae'n debyg nad oes newid i'r rhestr o ran enwau newydd, ond mae'r drefn wedi newid rywfaint. Mae Osian yn cynyddu mewn poblogrwydd eto eleni, tra bo Morgan wedi disgyn i lawr i'r degfed safle.

A beth am enwau merched o darddiad Cymreig yn 2015 (ac eto, eu safle ar y rhestr yn 2014 mewn cromfachau):

**Merched**

1. Seren(1)
2. Ffion (4)
3. Erin (3)
4. Megan (2)
5. Mali (5)
6. Nia (-)
7. Alys (7)
8. Carys (-)
9. Efa(-)
10. Cadi (6)



Mae Nia, Carys ac Efa yn codi i'r 10 uchaf y tro hwn. Yn 2014, Elin, Lois a Lili oedd yr enwau poblogaidd eraill yn y 10 uchaf. Ond ar ben y rhestr am yr eildro? Seren! Ie, mae Seren yn serennu eto ar ôl dod i'r brig y llynedd.



Roedd gweld yr enw Seren ar frig y rhestr yn fy atgoffa am Ŵyl arbennig iawn yn y Calendr Cristnogol, sef Yr Ystwyll, a ddethlir ar 6 Ionawr bob blwyddyn. Credir mai dyma'r noson y cyrhaeddodd y Doethion Fethlehem ar ôl dilyn 'seren' arbennig iawn drwy'r awyr o'r dwyrain tan iddi oedi uwchben y man lle ganwyd Iesu.

***WEDI I CHI*** dynnu'r goeden a'r trimins i lawr, a chyn i chi bacio'r Nadolig heibio am flwyddyn arall, ymunwch â ni mewn oedfa arbennig dan olau cannwyll yng **Nghapel Nghana, am 6 o'r gloch ar Nos Sadwrn 7 Ionawr** i nodi'r Ystwyll. Croeso cynnes i bawb.



**GWEDDI**

**Fel yr arweiniwyd y Doethion i addoli'r baban Iesu, felly arwain dy Eglwys i weddïo arnat yn gliriach ac i wneud dy waith ar y ddaear yn ffyddlonach.**

**Yn enw Iesu Grist.**

**AMEN**



## BLWYDDYN BYW Y BEIBL

BYW Y BEIBL

***Wrth i flwyddyn y BEIBL BYW ddirwyn i ben ddiwedd 2016 mae ymgyrch newydd wedi'i lansio ar gyfer 2017 sef BYW Y BEIBL. Mae'r logo newydd uchod ac edrychwch amdano ym mywyd y Priordy yn ystod 2017.***

BYW Y BEIBL

## DARLLENIADAU IONAWR

| | |
|---|---|
| Wythnos 1: | Eseia 63: 7-9 |
| Wythnos 2 | Eseia 60: 1-6 |
| Wythnos 3 | Eseia 42: 1-9 |
| Wythnos 4 | Eseia 49: 1-7 |
| Wythnos 5 | Eseia 9: 1-4 |

## DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

## CYFAILL DI-ENW

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**

**NOSON GYDA FFLUR DAFYDD**

**Nos Lun 6 Chwefror 2017 – 7 o'r gloch**

**Festri'r Priordy**

**Y Tabernacl yn ymuno â ni**



**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

## YMDRECH ARBENNIG FFION!

Ers amser mae Ffion Parsons wedi bod yn tyfu’i gwallt!



Yn dilyn  y Cwrdd Plant ar fore Sul 8 Ionawr bydd Ffion yn mynd i'r festri lle bydd yn torri o leia 12 modfedd o'i gwallt ac yn ei roi i elusen **Little Princess Trust** sy'n gwneud wigiau neu wallt gosod i blant sydd wedi colli’u gwallt gan eu bod yn cael cemotherapi.

Mae'n cael ei noddi i wneud hyn a bydd yr arian yn mynd at Myeloma er cof am ei Mam-gu, Beryl Davies. Mae hi eisioes wedi codi mwy na £700 ac yn anelu at £1000.  Bydd casgliad oedfa’r bore ar 8 Ionawr yn mynd at yr Apêl.



Bydd Gwenda Davies yn torri ei gwallt a bydd te a chacen. Mae croeso i bawb ddod i'r festri.

Ardderchog yn wir a gobeithio y byddwn yn gallu cefnogi Ffion [6 Lôn Clychau’r Gog, Caerfyrddin] drwy’i noddi.

**Sut dechreuodd bywyd? Creadigaeth neu Siawns?  Duw neu Ddamwain?**

**Cyflwyniad gweledol yn rhad ac am ddim**
***gan***
**DOMINIC STATHAM**
***ynghyd â chyfle i godi cwestiynau***



**Nos Wener 30 Ionawr 2017 – 6.30**

**Theatr Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**

***Lluniaeth ysgafn a Stondin Lyfrau***

**Cyswllt: Helen Griffiths ☎01267 232101**

# Y GAIR YN Y GWAIR















**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

## Y GYMDEITHAS

Y siaradwr gwadd y tro yma oedd Mr Einion Thomas, a fu'n archifydd Meirionnydd ac wedyn yn archifydd ym Mhrifysgol Bangor. Tryweryn oedd ei bwnc, a thrwy nifer helaeth o luniau o’r cyfnod, rhoddodd i ni gefndir difyr iawn i’r hanes arweiniodd at foddi Capel Celyn.  Cyfarfod nesaf y Gymdeithas oedd cinio Nadolig yng ngwesty'r Celt, Caernarfon.


## DRAMA'R GENI AR Y MAES



Ers sawl blwyddyn bellach, oedolion yr eglwysi sy'n gyfrifol am gyflwyno drama'r geni yn yr awyr agored. Mae'r cyflwyniad yn rhan o drefniadau eraill a wneir gan GyngorTref Caernarfon. Aelodau Salem fu'n gyfrifol am Mair (Lleucu Mair), Joseff (Dylan Rhys Owen), Bugail (Ifor ap Glyn) a Mia Catrin a Seren Lois yn angylion.

## Y NADOLIG YN SALEM

Y Sul cyn y Nadolig, roedd oedfa'r bore yng ngofal ieuenctid hŷn Salem. Yn dilyn yr oedfa, cafwyd **Cinio Bara a Chaws** er budd **Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol**.  Am 5 o'r gloch, llwyfannwyd cyflwyniad Nadolig y plant   - drama ar y thema *'Ar Goll’.* Ar ôl y perfformiad, cafwyd Parti Nadolig  gydag ymweliad Siôn Corn. Ar un noson, buom yn canu carolau yn rhai o gartrefi gofal y dre gan orffen yn Ysbyty Eryri.  Ar ddydd Nadolig ei hun, bu oedfa yn y Festri am 9.30.




## CLWB DARLLEN

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn darllen ‘*Aderyn Prin’* gan Elen Wyn.

# OEDFA NADOLIG
# CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

***Bore Gwener, 16 Rhagfyr 2016***



***TYNNODD*** ein Gweinidog ein sylw at nodweddion y Goeden Nadolig. Mae'n fytholwyrdd a hynny'n arwydd o fywyd tragwyddol.  Ac mae'r goeden wedi'i haddurno'n aml iawn yn cynnwys seren ar ei brig - fel yn wir yng Nghartref Plas-y-dderwen eleni.  Y seren arweiniodd y doethion i Fethlehem. Mae'n siŵr bod sawl un dros y blynyddoedd wedi gweithredu fel seren yn ein bywydau ni drwy'n harwain at Iesu, boed yn aelod o'r teulu neu rywun mewn ysgol neu eglwys neu yn ein cymdeithas.  Ac anogaeth ein Gweinidog oedd ar i ni fod yn sêr ein hunain fel y bo eraill trwom ni'n cael eu harwain at Iesu a dod i adnabod Iesu a'i ddilyn.



Roedd lolfa'r Cartref dan ei sang a'r trigolion a'r cyfeillion rhyngddynt yn cynrychioli sawl capel ac eglwys yn y cylch a thu hwnt.



Canwyd carolau Cymraeg a Saesneg, a gwrandawyd ar ddarlleniadau a gweddïau perthnasol yn y ddwy iaith. Roedd Mai Thomas  wrth yr organ.

Roedd y lolfa'n gefndir hyfryd i neges ein Gweinidog gan ei bod wedi'i harddu ar gyfer y Nadolig a'r  a'r Goeden a''r  seren yn ganolog yn yr addurniadau.  Roedd ambell un hefyd, gan gynnwys ein Gweinidog, wedi cofio'i bod yn Ddiwrnod Siwmperi Nadolig  - fel y gwelwch oddi wrth y llun!

***MAWR*** yw'n diolch unwaith eto i Gartref Plas-y-dderwen am y croeso a gafwyd ac am y baned a'r briwgacs a fwynhawyd ar ddiwedd yr oedfa,

***Yn y llun yn eu siwmperi hardd:  Beti-Wyn, Lucy Heafield (Cydgysylltydd Gweithgareddau'r Cartref), a Henry Wilkins***

# PEDWERYDD SUL YR ADFENT
# YNG NGHANA A BANCYFELIN

Yn y bore bu oedfa'r Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog. Cynheuwyd y bedwaredd gannwyll ar y Dorch i arwyddo cariad.

Canolbwyntiodd ein Gweinidog yn ei neges ar y Goeden Nadolig Nododd fel yr aeth sant o Brydain o'r enw Boniface i'r Almaen i bregethu am Grist. Torrodd dderwen i lawr a ddefnyddid i bwrpas paganaidd a gwelwyd coeden ffynidwydden fach yn tyfu y tu mewn iddi. Daeth yn arwydd sanctaidd – yn bren heddwch ac yn symbol o fywyd tragwyddol gan fod y dail yn fythwyrdd. Daeth y goeden ffynidwydden yn goeden gŵyl geni Mab Duw. Tröwyd y seciwlar yn sanctaidd, daeth rhywbeth cyffredin yn anghyffredin ac edrychwyd ar y goeden hon mewn ffordd wahanol o hynny ymlaen ac yn arwydd o gariad tragwyddol Duw - y Duw yn Iesu sy'n Dad i bawb ohonom. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan Wyn Evans (Y Priordy) ac roedd Heather Williams wrth yr organ.



Yn yr hwyr, parhawyd â'r traddodiad erbyn hyn o ymgasglu ym Mancyfelin a chydgerdded drwy'r pentref, gan aros bob hyn a hyn i wrando ar ddarnau o'r Beibl, i ganu carol neu ddwy ac i gyd-weddîo. Cawn ein harwain ar y daith gan ieuenctid y capel a'r pentref. Daeth ein taith i ben y tro hwn y tu allan i gartref Sali Walters, cyn ysgrifenyddes Capel Bancyfelin, a da oedd ei gweld hithau'n gallu ymuno yn y cydaddoli.  Yna ymlaen i'r capel a'r plant ac ieuenctid y capel yn ein harwain yn stori'r Nadolig sydd, fel y goeden, yn fytholwyrdd.  Ar öl i'r gwasanaeth ddod i ben, cafwyd ymweliad gan Siön Corn cyn i'r to iau adael am y Festri i fwynhau te parti haeddiannol.

Yn dilyn y gwasanaethau yng Nghana a Bancyfelin, cawsom gymdeithasu uwchben paned a briwgacs blasus a diolchwyd ar ein rhan i'n Gweinidog ac i bawb a fu'n paratoi ar gyfer y ddau achlysur ym mhob ffordd yn ddeuheuig iawn gan Sulwyn Thomas, Llywydd Swyddogion yr Ofalaeth.

# PLYGAIN 2016



***NOS SUL,*** 11 Rhagfyr, 2016 cynhaliwyd Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn y Tabernacl, Caerfyrddin, a'r noson yn rhan werthfawr o draddodiad Nadolig y dref ers llawer blwyddyn bellach. Daeth cynulleidfa dda ynghyd.

Roedd y Galwad i Addoli yng ngofal y Parchedig Peter Cutts ac estynnwyd croeso cynnes ar ran Merched y Wawr gan Nansi Hayes, Llywydd yr Oedfa.

Roedd y rhannau arweiniol dan ofal Olga Wiilliams a Glenys Thomas. Darparwyd eitemau amrywiol, ar lafar ac ar gân, gan Barti Merched y Wawr, Caerfyrddin, Aelwyd Myrddin, Capel y Tabernacl, Capel Heol Awst, Capel Penuel, Merched y Priordy, Eglwys Crist, Yr Ysgol Farddol, Capel y Babell a Meibion y Priordy. Cyhoeddodd Nansi Hayes, Lynette Jones ac Iris Williams garolau i'r gynulleidfa ac Enid Davies oedd wrth yr organ. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchedig Peter Cutts.


Bloodwise
Beating blood cancer since 1960

Mae'n dda cael dweud bod cyfanswm teilwng iawn wedi'i godi drwy werthiant y rhaglenni at elusen *Bloodwise,* sy'n gwneud gwaith pwysig iawn ym maes ymchwil i gancr y gwaed.

Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson mewn unrhyw ffordd.

# BLYCHAU YN Y CYNTEDD







**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**

# BORE'R NADOLIG YN Y PRIORDY




***HAWDD*** cuddio Iesu ac anghofio am ei fodolaeth ar Ddydd Nadolig yng nghanol bwrlwm y gwledda, y tinsel a'r anrhegion. A chawsom ein hannog – yn blant ac oedolion - gan ein Gweinidog, a hynny drwy gyfrwng delwedd addas i bob oedran – i beidio â cholli golwg ar Iesu, mab Duw, ein Gwaredwr sy'r Un 'ddoe, heddiw ac yn dragywydd',

Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal pump a ferched ifainc y Priordy, sef Siwan, Lleucu, Lowri, Catrin a Sara.  Cawsom ein harwain yn ystyrlon a phriodol ganddynt wedi i'n Gweinidog oleuo Cannwyll Crist yng nghanol y Dorch ar y diwrnod arbennig hwn. Roedd Heather Williams wrth yr organ.

Braf iawn oedd cael cwmni'r plant yn yr oedfa a mwynhau'r cyfle i weld rhai o'r anrhegion a gawsant yn gynharach y bore hwnnw.  Yn wir, roedd rhai ohonynt wedi deffro'n bur gynnar!

Mae Oedfa Deulu'r Nadolig yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn a braf oedd gweld gwaelod y capel yn gyfforddus lawn gyda chyfeillion yr Ofalaeth ac yn wir o wahanol rannau o Gymru wedi ymuno â ni.



Wrth i ni adael y capel cawsom i gyd ein cyfarch gan ein Gweinidog drwy dderbyn cerdyn arbennig yn Dymuno *Nadolig Llawen a Bendithiol* i Bawb gydag adnodau ar y cefn yn adrodd hanes geni Iesu ym Methlehem, gan ddefnyddio fersiwn beibl.net.

***DECHRAU DA*** i Ddydd Nadolig yn wir,

**Nansi Hayes…**



# CALAN

***BLWYDDYN*** arall wedi diflannu!

HED AMSER! meddi?
NA!! ERYS AMSER, DYN Â.

Rwyf wedi cyffwrdd â rhai o ddefodau a thraddodiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Calan yn ôl-rifynnau Mis Ionawr Papur Priordy, megis Penillion Calan, Y Fari Lwyd, Hela'r Dryw, ac ati, ond y tro yma 'rwy am fentro i fyd na wn i ddim llawer amdano'n bersonol, sef Ofergoeliaeth, a oedd yn rhemp yng Nghymru yn y gorffennol, yn enwedig yng nghefn gwlad.



Pethau bach syml fel "peidio â cherdded o dan ysgol", neu "boeri wrth weld ceffyl gwyn", a dweud y rhigwm Saesneg, "*One for sorrow, two for joy*" wrth weld pioden oedd bod yn ofergoelus i mi, ond 'roeddwn wedi clywed sôn lawer gwaith pan oeddwn yn fach, am bethau llawer mwy arswydus, digon i godi gwallt eich pen roedd pobl yn credu ynddynt 'slawer dydd.

Dyma rai ohonynt: Cannwyll Corff, Aderyn Corff, Toilod, Ellyllon y Nos, Ceiliogod yn canu ganol nos, Cŵn yn udo, a storïau am Dylwyth Teg a'u stranciau. Credid hefyd mewn Bwganod (Bwci Bo), ac mewn rheibio a gwragedd hysbys, a'r Ladi Wen a'r Ladi Ddu, a Chŵn Bendith y Mamau.

Prin fod gwell adeg o'r flwyddyn na Chalan Gaea' am storïau i godi ofn, a hynny ar noson dywyll fel y fagddu, … y gwynt yn cwynfan ym mrigau'r coed, a'r gwdihŵ yn codi arswyd a'i hwtian atseiniol.
Cerdded adre' yn hwyr y nos wedi bod mewn cyngerdd neu eisteddfod efallai, dim golau stryd wrth gwrs, ond sawl un yn cario lamp *"hurricane*" a'r rheiny'n taflu cysgodion brawychus o gwmpas.
Peth arall fyddai'n codi ofn ar bobl yng nghefn gwlad yn y ddeunawfed ganrif oedd nifer y llofruddiaethau oedd yn digwydd, yn enwedig os oedd y llofrudd heb ei ddal.

Roedd cred fawr yn y "Cannwyll Corff", yn gysylltiedig bob amser

â marwolaeth, naill ai'n arwydd bod marwolaeth yn mynd i ddigwydd, neu wedi digwydd. Roedd i'w gweld fel fflam neu belen o dân yn hofran neu'n llonydd ychydig droedfeddi uwchben y ddaear.

Roedd sôn am Fwcïod yn gyffredin hefyd, y Bwca Llwyd ym Mhenfro, ac wedi i Mr Bowen o Langeler weld bwci ar ben ei lôn, Penlon Bwci y gelwid y lôn o hynny ymlaen.



Mae 'na sôn am fwci yn Llangeler hefyd, a maes wedi'i enwi'n Parc y Bwci ychydig i'r gogledd o'r Eglwys.

Drychiolaeth Nos Galan oedd y Ladi Wen, a chymar i'r Hwch Ddu Gwta yn ôl fersiwn Môn o'r pennill:

Hwch Ddu Gwta, a Ladi Wen heb ddim pen
Hwch Ddu Gwta, a gipio'r ola'
Hwch Ddu Gwta Nos G'langaea
Lladron yn dwad tan wau sana.

Ac mae'r Parchedig Towyn Jones yn ei lyfr **Rhag ofn Ysbrydion** hefyd yn cyffwrdd â'r Hwch Ddu Gwta, ac yn sôn sut y byddai pawb yn rhedeg adref am y cyntaf wedi dathlu Calan Gaeaf o gwmpas y goelcerth, rhag i'r Hwch Ddu Gwta eu dal.

Mor ddwfn oedd ofergoeliaeth wedi cymryd meddiant o blwyfolion, byddent yn enwi rhiwiau megis Rhiw'r Wrach yn ardal Cwmhiraeth yn enwog am ei gwrach-y-rhibinod, ac yn berygl bywyd i'w theithio wedi'r hwyr.

Wel dyna ddigon am fwganod ac ati, ond mae gen i un stori a godai arswyd arna i pan oeddwn yn fach, am ffrind i Mam a gafodd fraw un noson pan oedd yn cerdded adre gyda'i mam i'w cartref unig ar ffordd gul droellog, heibio il fynwent Capel Hebron ger Pencader. Wrth basio'r fynwent reit wrth ymyl y ffordd 'roedd yna fedd agored yn barod ar gyfer angladd drannoeth. Clywsant sŵn annaearol yn dod o'r bedd, sŵn crafu a rhygnu a thuchan, a chan fynd heibio mor fuan ag y medrent, cyrraedd y tŷ, cau'r drws yn glep, ac mewn llais crynedig Ray yn gofyn "*O, beth oedd hwnna Mam*?"

Trannoeth adeg y gladdedigaeth clywsant yr union sŵn eto, y crafu a'r rhygnu wrth i'r Cludwyr geisio cael yr arch i'r bedd. Roedd y twll a baratowyd yn rhy gul i'r arch!

A wyddoch chi beth, cynhebrwng Ewyrth i fy Mam-gu oedd e, Gweinidog gyda'r Bedyddwyr ym Methesda a Chaellwyncrudd , Arfon, wedi'i godi yng Nghapel Hebron. Beth dybiwch chi oedd y sŵn a glywyd y noson honno!?

**TUDALEN BLAEN**

**DEWIS IRENE WILLIAMS**



**Mae Irene Williams yn cofio hoff emyn y teulu (*Yr Arglwydd a feddwl amdanaf – Caneuon Ffydd 208*) yn cael ei ganu yng Nghymanfa Ganu Crwbin adeg y Llungwyn pan oedd yn ifanc. Cynhelid y Gymanfa yn Ebeneser, Crwbin, ond achlysur ar gyfer yr enwadau i gyd oedd hwn.**



**Deuai John Hughes Dolgellau (ond o Rosllannerchrugog yn wreiddiol) i Grwbin yn rheoladd i arwain y gymanfa a thad Irene (John Daniels) oedd wrth yr organ.**

**Gwyddom yn dda, wrth gwrs, am Irene Williams a'i gwaith arbennig dros y Ffydd Gristnogol ac achosion fel Cymorth Cristnogol a Chymdeithas y Cymod dros y blynyddoedd. Roedd ei phriod, Y Parchedig Cyril Williams, yn un o gyn-weinidogion y Priordy, yn ysgolhaig o fri ac yn arbenigwr ar grefyddau mawr y byd.**

**Ein cofion annwyl at Irene Williams sy'n methu â bod gyda ni yn yr oedfaon y dyddiau hyn ond sy'n ymddiddori'n fawr iawn ym mhob agwedd ar fywyd a gwaith ein heglwys.**

**Peter Hughes Griffiths…..**



# EMYN- DONAU AR EIN COF

***YDYCH*** chi erioed wedi meddwl sawl emyn-dôn rych chi'n medru ei chanu ar eich cof? Mae'n bosibl eich bod chi fel fi yn fawr o gerddor ond eich bod fel finne wedi dysgu'r holl donau wrth ganu'r emynau ar hyd y blynyddoedd ac yn medru eu canu'n ddi-drafferth.

Does gen i ddim syniad faint o donau y gallwn i eu canu'n gynulleidfaol, ond,gallaf ddweud mai pur anaml mewn gwasanaeth bellach rwy'n methu canu'r emyn-dôn, ac rwyn siŵr fy mod i'n rhannu'r un profiad â chithau.



Wrth wrando ar *'Ganiadaeth y Cysegr'* ar y radio neu '*Dechrau Canu'* ar y teledu, bydd y rhan fwyaf o'r emyn-donau'n gyfarwydd i ni, ac fe allwn ymuno yn y gân yn ddigon rhwydd.

Cofiwch nad wyf yn sôn yn y fan hyn am safon y canu, ond yn hytrach am y ffaith ein bod yn adnabod y dôn ac yn medru ei chyd-ganu. Fel arfer, bydd yr organ neu'r piano yn rhoi'r cyflwyniad i'r emyn-dôn i ni cyn codi i ganu'r emyn, ac ar unwaith byddwn yn barod i gychwyn gan ein bod yn gyfarwydd â'r emyn-dôn.

Mae hyn yn beth arbennig sy'n perthyn i ni Gristnogion a Chapelwyr, dwedwn i.



Sawl blwyddyn yn ôl bellach roedd Meinir a minnau'n darlithio am ryw wythnos bob haf i grwpiau o Americanwyr yng Ngholeg y Drindod gan roi darlun iddyn nhw o hanes diwylliannol Cymru a hwythau ar gwrs yn ymwneud â'r Celtiaid. Roedd un sesiwn yn ymwneud â chrefydd a chyfansoddwyr emynau, ein gwasanaethau a'n Cymanfaoedd Canu. Yr hyn oedd yn eu rhyfeddu oedd y ffaith ein bod yn medru codi i ganu'r holl emynau heb gerddoriaeth o'n blaenau gan eu bod ar ein cof.

Roedd rhaid i mi egluro iddyn nhw am y traddodiad o ddysgu Sol-ffa ymhlith y werin yng Nghymru a bod clust dda gerddorol gan bob Cymro a Chymraes! Roedden nhw wrth eu boddau'n gwerthfawrogi'n camp fel pobl wrth ganu'r holl emynau.

Braf meddwl fod miloedd o'n cyd-Gymru'n dal i fedru canu ugeiniau a

mwy o emyn-donau ar eu cof yn ein gwasanaethau crefyddol, ac mae hyd yn oed canlynwyr y bêl gron a hirgron i gyd yn gallu canu '*Bread of Heaven'* pan mae pethe'n mynd yn dda, a diolch am *'Calon Lân'* a '*Mi glywef dyner lais'* mewn llawer angladd, er mor siomedig y gall y canu hwnnw fod weithiau'r dyddiau hyn. Do, fe ddaeth dyddiau canu hyd yn oed '*I bob un sy'n ffyddlon'* i ben hefyd yn ein tafarnau!



Mae geiriau ac emyn-donau newydd yn dal i gael eu cyfansoddi a sawl un o'r rheiny'n aros yn y cof.



Fe gyhoeddir detholiad o emynau'n flynyddol yn y *Rhaglen Cymanfaoedd Canu.* Emynau o'r casgliad hwn mae'r plant a'r oedolion yn eu dysgu a'u canu ar gyfer ein *Gŵyl Mawl Medi* yn flynyddol. Cynhelir yr Ŵyl eleni ar Sul 24 Medi yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin. Cofiwn yn dda am y canu ysbrydoledig a gafwyd yn Y Priordy y llynedd a byddai'n dda pe gallem ddod i'r rihyrsals ar y ddwy nos Sul cyn yr Ŵyl Medi nesaf er mwyn dysgu mwy o emyn-donau. Bydd y *Rhaglenni* gan Meinir i chi mewn sol-ffa neu hen nodiant.

***BETH AMDANI?***

| RHAGHYSBYSIAD<br>**GŴYL MAWL MEDI**<br>Y TABERNACL – DYDD SUL 24 MEDI 2017 | |
|---|---|
| *Y Bore am 10*<br>Oedfa o Fawl i'r<br>Plant a'r Oedolion<br>dan arweiniad<br>Catrin Hughes | *Y Prynhawn am 2*<br>Oedfa Bregethu<br>gyda'r<br>Parchedig<br>Owain Llyr Evans |
| **YMARFERION** | |
| *Plant*<br>Bore Sul 17 Medi<br>Y Tabernacl – 11 y bore | *Oedolion*<br>Nos Sul 10 a17 Medi<br>Y Tabernacl – 7 yr hwyr |

# NADOLIG - Y STORI

## Capel y Bedyddwyr Saesneg, Heol Awst, Caerfyrddin
## *12-17 Rhagfyr 2016*

***PAN*** mae rhywun yn gweld llygaid plant yn pefrio a rhyw dawelwch naturiol yn eu mysg, mae'n synhwyro ar unwaith fod rhywbeth yn cydio'n go iawn.

Felly roedd hi yn ystod perfformiadau **Nadolig - y Stori** yng Nghaerfyrddin y mis diwethaf.

Go brin bod Cytûn yn cyflawni gwaith rhagorach na phwysicach na chyflwyno'r stori hon a hynny yng Nghapel y Beddyddwyr Saesneg yn Heol Awst yng nghanol ein tref liwgar a phrysur yr adeg hwn o'r flwyddyn. Plant ysgol yw mwyafrif helaeth y cynulleidfaoedd ac mae gweld eu hymateb yn rhyfeddod yn wir. Mae'n hen hen stori a bydd nifer (ond nid pawb) wedi'i gweld a'i chlywed sawl gwaith yn y gorffennol. Serch hynny, mae'n dal i gipio'r dychymyg.


Pam mae'r cyflwyniad arbennig hwn yn apelio tybed? Wel, mae'n gryno a'r llefaru'n glir ar dâp tra bo'r actorion yn meimio, Mae'r set yn syml, y miwsig cefndirol yn ddengar, y goleuadau'n effeithiol a'r gwisgoedd yn hynod o drawiadol. Ac i groesawu'r ymwelwyr wrth iddynt ddod i'r capel mae asynnod go iawn. Ac ydynt – maent yn cael gofal mawr a'u bwydo'n dda!

Cryfder mawr yw trefniant y cyflwyniad gan y gall actorion Cymraeg eu hiaith a di-Gymraeg, fel ei gilydd, gymryd rhan mewn perfformiadau yn y ddwy iaith. A thybed yn wir, o ystyried pwy yw llawer o'r gwirfoddolwyr, a fyddai'n bosibl llwyfannu cynifer o berfformiadau Cymraeg heb gymorth y di-Gymraeg?

Cynhaliwyd 25 sesiwn yn ystod yr wythnos a bu tua **1050** o ddisgyblion (o Ysgolion Y Model, Llanddarog, Abergwili, Y Dderwen, Llansteffan, Llangain, Bancyfelin, Parc Waun Dew, Bro Myrddin, Cefneithin, y Santes Fair a Llangynnwr) a thua **1850** i gyd (plant ac oedolion) yn

gwylio. Mae'r niferoedd hyn hefyd yn amlygu cynnydd ar niferodd 2015. Does ryfedd felly fod y prosiect arbennig hwn o 'stabl' Cytûn mor allweddol.

Un sylw bach.  Wrth edrych i'r dyfodol, tybed a ddaw cyfle i ystwytho ychydig ar ieithwedd y sgript Cymraeg drwy efelychu arddull beibl.net? Un o brif nodau'r testun hwnnw, fel yn wir **Nadolig – y Stori**, yw  helpu plant a phobl ifanc ac oedolion heb gefndir capel neu eglwys yn ogystal â dysgwyr Cymraeg i werthfawrogi ystyr neges y Beibl yn llawn drwy ddefnyddio iaith lafar rwydd a naturiol a chyfoes drwyddi draw.



***YN*** ddiamau, trysor o gyflwyniad yw hwn a haedda'r holl wirfoddolwyr sydd ynghlwm wrtho glod mawr.  Gwna gyfraniad pwysig i'n tref adeg y Nadolig.

## CANOLFAN GALW-I-MEWN



**Casglwyd £200 ar Sul cyntaf Rhagfyr i gynorthwyo Capel y Bedyddwyr Saesneg Heol Awst i baratoi Cinio Nadolig ar gyfer anffodusion ein tref.  Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.**

## CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA A BLAENORIAID BANCYFELIN

**Nos Fercher 15 Mawrth 2017 am 7 ym Mancyfelin**

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY**

**Nos Fercher  26 Ebrill 2017 yn y Festri am 7**

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda***

# Y GAIR YN Y GWAIR







# Ifanc@Priordy



## Nadolig

Diolch o galon i chi i gyd am wneud eich gwaith mor wych yn y gwasanaeth Nadolig. Mae adroddiad llawn gan Enid Wyn Jones mewn man arall yn y rhifyn hwn o Bapur Priordy. Gwych!

## Parti

Diolch i bawb a ddaeth i'r parti! Roedd yn ddiweddglo hyfryd i'r tymor!

**Anrhegion** - Os oes unrhyw aelod o'r Ysgol Sul heb dderbyn ei anrheg Nadolig oddi wrth Beti-Wyn, cysylltwch ar unwaith! Mae rhai ar ôl gen i felly mae rhywrai heb eu derbyn! Diolch

## Noson i bobl ifanc

Noson arbennig i bobl ifanc yng Nghaerfyrddin wedi'i threfnu gan MIC a Choleg Y Bala, Nos Wener 13 Ionawr  2017. Cyfarfod yn gyntaf yn y "Laser Station" erbyn 5:45 y.h. yna symud i'r "Atom". Yno bydd arweinwyr Cwrs Ieuenctid Oedfa'r Ysgolion Sul i'w chynnal yn Y Priordy eleni, fore Sul, 26 Chwefror. Nodwch y dyddiad!

Coleg Y Bala yn arwain sesiwn pwrpasol, llawn hwyl. Bydd y noson yn gorffen am 9:30 y.h. Bydd

MIC yn noddi dros hanner cost y noson ac felly dim ond £5 y pen fydd y pris. Mae'r noson yn agored i bobl ifanc blynyddoedd 7 – 11. Rhaid cofrestru enwau erbyn 1 Ionawr. Dyma gyfle ardderchog, felly, i bobl ifanc gael mwynhau noson gymdeithasol mewn cyd-destun Cristnogol. Os am ddod, rhowch wybod i Beti-Wyn



## Cyfle olaf!




**Pêl-droed a Phêl-rwyd MIC**
**Blwyddyn 3 +**

Dydd Sadwrn, 28 Ionawr 2017
Canolfan Hamdden Caerfyrddin.
Pêl-rwyd yn y bore a phêl-droed yn y prynhawn.
Enwau i Luned erbyn dydd **Mercher, 8 Ionawr** fan bellaf. lunedthomas@googlemail.com

1. Pêl-droed Cynradd (bechgyn/merched/cymysg)
2. Pêl-rwyd Cynradd (bechgyn/merched/cymysg)
3. Pêl-droed Uwchradd (bechgyn yn unig)
4. Pêl-rwyd Uwchradd (merched yn unig)


## Gŵyl Dewi

Oedfa'r Ysgolion Sul i'w chynnal yn Y Priordy eleni, fore Sul, 26 Chwefror. Nodwch y dyddiad

## Hwyl am y tro. Blwyddyn Newydd Dda! Beti-Wyn



**Enid Wyn Jones ...**



## GWASANAETH NADOLIG RHAGFYR 2016
## 'Y GAIR YN Y GWAIR'

Roedd yna naws hyfryd yn y Priordy bnawn dydd Sul, Rhagfyr 11eg gyda'r capel yn llawn dop yn disgwyl yn eiddgar am wasanaeth Nadolig y Plant a'r Bobol Ifanc. Yn wir fe ddwedodd Beti-Wyn mai'r dyma'r mwya' iddi hi'u gweld mewn Gwasanaeth Nadolig yn y Priordy. Wel, chafodd neb ei siomi ... dyma beth oedd gwledd o wasanaeth wedi'i gynllunio a'i sgriptio yn bwrpasol gan ein Gweinidog gyda chyfle i bob un oedd yn cymryd rhan o'r lleia i'r mwya' serennu.

Wedi'r croeso arferol gan Beti-Wyn a chyfle i'r gynulleidfa gyd-ganu'r garol "*O Deuwch Ffyddloniaid*" fe osododd y llefarwyr Elin a Cara y cefndir i olygfa'r plant oedran Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1. Bore Nadolig oedd hi a daeth y plant i'r sêt fawr i gerddoriaeth "*Tinsel ar y Goeden*" yn eu pyjamas yn chwilio yn eiddgar a oedd Siôn Corn wedi galw. Chafon nhw ddim eu siomi ac yn wir roedd anrheg "sbesial" yn y sach – Beibl. Fe ganodd y rhai lleia ganeuon hyfryd i donau cyfarwydd iddynt gyda'r gynulleidfa'n ymuno yn y gytgan.



Cyn eitem 'Pobol Ifanc Priordy' (PIP) daeth Parti'r Dynion dan arweiniad Meinir Lloyd i'r llwyfan a'n diddanu gyda'r safon uchel arferol. Roedd eitem criw PIP wedi'i ganoli ar hanes Mari Jones ac yn dilyn thema'r Beibl fel 'anrheg' o'r olygfa gynta. "Rwy'n siŵr y byddai well ganddynt fod wedi cael tegan neu ddau yn lle!" meddid. Rhannwyd yr eitem i olygfeydd: Mari Jones a'i mam; Mari Jones a Siân Bodlian Fawr; Mari Jones yn cynilo arian; Mari yn cychwyn ar ei thaith; Cyrraedd y Bala. Roedd graen arbennig ar waith y bobol ifanc – llond pulpud a llwyfan ohonyn nhw yn llefaru, cyd-ganu, rapio a chyflwyno'r stori a'r negeseuon yn effeithiol tu hwnt. Mi fyddai Mari Jones wedi gwneud unrhywbeth i gael Beibl yn ei hosan Nadolig ond roedd lle i ddiolch iddi hi am ddechrau'r broses sydd wedi golygu bod cael ein llaw ar Feibl yn hawdd heddiw. "Y Beibl yw Gair Duw" ... "Dyna yw'r Nadolig – Y Gair – Iesu Grist yn dod yn gnawd, yn un ohonom ni."



Criw Blynyddoedd 5 a 6 oedd yn gyfrifol am yr eitem nesa, "Palas Herod", lle oedd y morynion yn brysur yn sgrwbio yn y seler ac yn

trafod y newyddion am enedigaeth "brenin newydd" gan ddarogan na



fyddai Herod yn hapus gyda'r newyddion "Herod, Herod fydd mewn strach wedi geni brenin bach!". Cafwyd sgwrs ddoniol rhwng Herod a'r Doethion oedd wedi bod yn gwylio *"match*" rhwng y Rhufeiniaid a'r Groegiaid ... lle oedd y Rhufeiniaid wedi ennill *"two nil*"! Anfonwyd y Doethion i chwilio am newyddion am y brenin newydd.



Yna daeth eitem hyfryd gerddorol gan y Parti Merched – er byddai "Côr" yn enw nes ati! Llond y llwyfan o ferched y Priordy dan arweiniad Nicki Roderick . '*Awn i Fethlehem* ' oedd yr olygfa nesa' gyda rhai o blant blwyddyn 4 yn portreadu taith flinedig Mair a Joseff i chwilio am lety ym Methlehem. Dwi'n amau mai yma y cafwyd y chwerthiniad mwya pan oedd Mair yn cwyno y byddai drafft yn y beudy ... "*Fedrwn ni fyth â bod yn ffysi, Mair*" meddai Joseff!



Fyddai'r un Gwasanaeth Nadolig yn gyflawn heb yr



Angylion a'r Bugeiliaid a bortreadwyd yn eitem "*Golau ar y Bryn*" gan rai o flynyddoedd 2,3 a 4. Cafwyd llond y pulpud o Angylion oedd wedi bod yn gweithio'n galed ... a'u hadenydd wedi blino'n lân ... ond roedd y golau yn llachar o hyd. Roedden nhw'n dod â newyddion da i'r Bugeiliaid am eni'r baban Iesu.

Wedi'r garol gynulleidfaol "*I orwedd Mewn Preseb"* daeth yr uchafbwynt gyda'r olygfa "*O amgylch y Preseb"* – ymunodd pawb gyda'r angylion a'r bugeiliaid a chreu golygfa fendigedig o gwmpas y



preseb gyda'r doethion yn dod ag aur, thus a myr i'r baban Iesu. Dw i'n eitha saff bod yn agos i 80 o blant a phobol ifanc yn creu'r olygfa – gwych yn wir. Daeth yr eitem i ben gyda'r geiriau oedd yn clymu'r gwasanaeth "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw. Diolch am Iesu, **Y Gair yn y Gwair**."

Diolchodd Beti-Wyn i bawb fu'n cymryd rhan ar lafar ac ar gân ac i'r hyfforddwyr, rhieni a'r teuluoedd am eu cefnogaeth a hynny ynghanol

brysurdeb y cyfnod. Diolchwyd hefyd i Ian am y system sain. Daeth yr oedfa i ben gyda'r garol "Clywch lu'r nef'. Yn bwrpasol iawn, roedd casgliad y dydd yn mynd at waith yr Ysgol Sul.

Roedd **"Y Gair yn y Gwair"** yn wych, yn ffresh ac yn llawn hiwmor heb anghofio gwir negeseuon yr Wyl – ac roedd y plant a'r bobol ifanc yn mwynhau ei gyflwyno inni. Hyfryd iawn oedd gweld y capel yn llawn o aelodau, ffrindiau, teulu estynedig yn mwynhau gwaith y plant a'r bobol ifanc ac yna yn mwynhau'r lluniaeth yn y Festri.

***RYDYN NI'N EDRYCH YMLAEN*** yn barod at y Gwasanaeth yn 2017!

## GAIR O DDIOLCH

**Diolch yn fawr iawn i'r Is-Bwyllgor Bwyd am drefnu'r lluniaeth ysgafn wedi'r gwasanaeth ac i bawb a gyflwynodd roddion**

**Casglwyd £335.13 at waith yr Ysgol Sul yn ystod y gwasanaeth - swm ardderchog yn wir. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ac i Elis a Meinir Jones am gadw'r cyfrifon.**

**CIC AR DAITH**
**13 Ionawr 2017**
**LASER STATION + YR ATOM**
**£5**
**Cwrs Ieuenctid Coleg y Bala**
**Manylion Pellach – Nigel Davies ☎01994 230049**

**MIC**
**CYSTADLAETHAU PÊL-DROED A PHÊL-RWYD**
**Dydd Sadwrn 28 Ionawr 2017**
**Canolfan Hamdden Caerfyrddin**
***Manylion Pellach – Nigel Davies ☎01994230049***




Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

# PIGION O GOFNODION CYFARFOD CYTÛN CAERFYRDDIN A GYNHALIWYD YNG NGHAPEL Y WESLEAID

***Nos Lun, 28 Mawrth 2016***

**WYTHNOS WEDDI AM UNDOD EGLWYSIG 2017**

'Croesi Muriau' yw'r thema, a chynhelir y cyfarfod ar **Nos Sul, 15 Ionawr**, yn eglwys San Pedr, am 5.00pm, gyda Noel Davies yn pregethu yn Saesneg. **Bydd y cyfarfodydd dyddiol rhwng 16 a 20 Ionawr yn ystafell gyfarfod fechan y Capel Wesle**

**GRŴP GWEINIDOGION**

Penderfynwyd cynnal cyfarfod ddydd Iau, 5 Ionawr 2017, 10.00am, yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg, a thrafodir y posibilrwydd o drefnu i gyfarfod unwaith y mis. Bydd Martin Dalling yn cysylltu â'r gweinidogion

**GRŴP CRISTNOGION YN ERBYN TLODI**

Mae'r Grŵp yn awyddus i sefydlu canolfan i gynorthwyo pobl sydd mewn dyled, a hoffent wybod a oes eglwys neu grŵp arall yng Nghaerfyrddin eisoes yn gwneud gwaith tebyg. Rhoddir y mater ar agenda Grŵp y Gweinidogion.

**CYNGOR TREF CAERFYRDDIN- GRŴP SIÂN JOHNSTON**:

Mae angen cynrychiolydd o Cytûn i fynychu cyfarfod y Grŵp. Mae Dr Mz ac ysgolion lleol yn edrych ar ôl gwelyau blodau yn y dref, ac mae'r Grŵp yn gobeithio dod yn dref sy'n denu gwenyn. Mae rhai aelodau o Cytûn eisoes yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp, ond nid fel cynrychiolwyr Cytûn. Bydd Peter Cutts yn cynrychioli Cytûn, gyda Martin Dalling yn ddirprwy iddo.

**COLLI GETHIN ABRAHAM WILLIAMS**

Cyhoeddwyd marwolaeth Gethin Abraham Williams, un o aelodau gwerthfawr Cytûn, a chysylltiadau agos ganddo â Chaerfyrddin

**BORE COFFI**

**Dyddiad Bore Coffi nesaf Cymorth Cristnogol fydd 18 Mawrth 2017, a hynny yng nghanolfan Capel y Bedyddwyr Saesneg**

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**:

Nos Lun, 27 Chwefror 2017, 7.00pm, yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg

# CWIS PUM MUNUD DROS BANED A CHANEUON FFYDD!



*Profwch eich gwybodaeth!*

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | I | | | | | | | | | | | |
| 2 | O | | | | | | | | | | | |
| 3 | N | | | | | | | | | | | |
| 4 | A | | | | | | | | | | | |
| 5 | W | | | | | | | | | | | |
| 6 | R | | | | | | | | | | | |

**Llanwch y bylchau**

**1, _____ a thad yr holl greadigaeth (896)**

**2. _____ yma mae mewn undeb (612)**

**3. _____ pechadur trist (312)**

**4, _____ gartref ein Duw (789)**

**5. _____ chwi beth ydyw Duw (129)**

**6. _____ dewis Iesu a'I farwol glwy' (305)**

**Sgôr**

**5 marc ar gyfer pob ateb cywir (os ydych heb gyfeirio at Caneuon Ffydd). 2 farc ar gyfer pob ateb cywir (os ydych wedi cyfeirio at Caneuon Ffydd)**

***Cyfanswm posibl – 30. Os ydych wedi sgorio llai nag 20, rhaid troi'n llawer mwy aml at Caneuon Ffydd!***

***Atebion yn y Rhifyn Nesaf***

**AGOR Y GAIR**

**CYFRES ARALL ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD CYMRAEG YNG NGHAERFYRDDIN**

***dan arweiniad***



**Y Parchedigion Beti-Wyn James a Peter Cutts**

**Boreau Iau 1,8,15, 22 Chwefror 2017**

**11 tan 12 o'r gloch**

**Canolfan yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin**

**Manylion pellach: ☎01267 237696 / 236658**

***Noddir y Gyfres gan Raglen Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***



# DRWS AGORED



**TYMOR 2016-2017**

***BORE IAU 15 Chwefror 2017***

**Festri'r Priordy**

***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***

***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***

**TYNGED YR IAITH SIR GÂR**

**Y Cyfarfod nesaf – 28 Ionawr 2017**



**Y pwnc dan sylw - Cynllunio Dyfodol ein Cymunedau**

***Mwy o fanylion yn y man***

**GWENLLIAN A MARGED**

**AR EU FFORDD I FLORIDA!**

Mae Gwenllian a Marged Jones wedi cael eu dewis i gystadlu mewn cystadleuaeth Gymnasteg yn Florida ym Mis Chwefror 2017. Mae'r ddwy'n mynd ar daith gyda 12 o ferched eraill o Abertawe, Castell-nedd, Llanelli, Caerfyrddin a Sir Benfro fel rhan o garfan Gorllewin Cymru i gystadlu mewn cystadleuaeth ryngwladol o'r enw, *The Magical Classic* yn Orlando.



Mae'r ddwy wrth eu boddau o gael y cyfle i gystadlu dramor ac i gael cyfle i dreulio ychydig o amser yn Y PARC ar ôl i'r cystadlu ddod i ben! Dyw Mam a Dad nac Anna ychwaith yn rhy hapus eu bod yn gorfod aros gartre!

Mae Marged a Gwenllian yn cymryd rhan mewn *Flickathon* yn y flwyddyn newydd gyda'u clwb yn Llanelli, gyda'r bwriad o wneud flicks i'r un pellter â'r daith oddi yma i Florida dros gyfnod o fis!
Pe hoffech noddi'r ddwy, bydd ffurflen noddi ar gael gan y merched yn y capel ac fe fyddent yn ddiolchgar dros ben.

**Gareth Gravell…**



## CYMDEITHAS RHAGFYR 2016
## DR JOHN WALTERS

***AR NOS IAU***, 8 Rhagfyr daeth cynulleidfa niferus ynghyd yn festri Capel Y Tabernacl i glywed y Dr John Walters yn annerch y Gymdeithas Ddiwylliadaol. Ffisegydd yw Dr Walters, wedi arbenigo mewn ffiseg niwclear ac wedi bod yn rhan



o dîm o wyddonwyr sydd wedi gweithio yng nghanolfan CERN ger Geneva yn y Swisdir. Rwy'n siŵr fod rhai ohonnoch yn ymwybodol mai dyma lle y lleolir yr *Hadron Accelerator* lle gwneir arbrofion i gael atebion i gyfrinachau'r Bydysawd. Fodd bynnag, nid gwyddoniaeth oedd testun Dr Walters, ond hanes – ac yn benodol hanes Tre Caerfyrddin. Trwy gyfrwng ffilm a lluniau hynod ddiddorol, aed â ni yn ôl mor bell â dechrau'r ganrif ddiwethaf, pan oedd y dre'n llawn bwrlwm a phrysurdeb masnachwyr a busnesau llewyrchus.

Yn enedigol o bentre glofaol yng Nghwm Tawe, Godre'r Graig, symudodd i Gaerfyrddin pan oedd yn naw oed yn 1947 – adeg yr eira mawr! Glöwr oedd ei dad ac yn dilyn damwain bu rhaid iddo roi'r gorau i'r pwll glo ac ar ôl ymateb i hysbyseb am swydd rheolwr gwesty, dyma'r teulu yn symud i'r *Nelson Hotel*, ynghanol tre Caerfyrddin i gychwyn ar fywyd newydd, tra gwahanol. Yr argraff gynta gafodd oedd y prysurdeb oedd yn y dre – y siopau, y ffeiriau, y syrcas a'r afon Tywi oedd yn rhedeg drwy'r dref.

Fe brynodd ei dad rywbeth a fyddai'n gwneud y gwyddonydd ifanc hwn yn hapus dros ben. Rhywbeth a ddatblygodd yn ddiddordeb pwysig a ddaeth â boddhad a chyffro iddo wrth iddo setlo i mewn i'r amgylchfyd newydd hwn. Camera! Neu'n hytrach *cine camera* a oedd yn medru tynnu lluniau symudol. Teclyn chwyldroadol iawn yn 40au'r ganrif ddiwethaf'! Wel, doedd dim dal y crwt ifanc yn ôl. Fe ddechreuodd gofnodi delweddau pwysig iawn, delweddau mae'n eu trysori hyd heddiw ac a drosglwyddir i'r teulu fel cofnod gwych o fywyd o'r 40au ymlaen, sef lluniau o'i rieni a'i deulu agos. Yna yn nes ymlaen lluniau o'r dref. Fodd bynnag busnes go gostus oedd y diddordeb hwn gan fod ffilm 75 eiliad yn costio tua 11 swllt neu'n 55c yn ein harian ni! Swm sylweddol iawn yr adeg hwnnw wrth gwrs. A dyma gyfeirio at hen

fusnes George Weaks, ffotograffydd yn y dre lle bu'n prynu'r ffilm hanfodol.

Fe ddechreuodd ffilmio'r mart, oedd adeg hynny yng nhanol y dref. Diddorol nodi mai ffilm Dr Walters yw'r unig ffilm symudol o'r mart yng Nghaerfyrddin sydd ar gael ac mae copiau wedi'u storio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Ffilmiodd hefyd Sul y Cofio a oedd yn ddigwyddiad pwysig iawn gan fod atgofion y rhyfel, wrth gwrs, mor glir yn y cof ym 1947. Bu gorymdaith enfawr yn y dre, gan ddechrau yn Heol Awst, i fyny at y sgwâr, ar hyd Heol y Brenin ac yna draw i'r gofeb ger yr ysbyty yn Heol y Prior.

Y dyddiau hynny roedd yr orsaf drên yn bwysig oherwydd roedd yn cludo teithwyr nid yn unig i'r dwyrain i gyfeiriad y dinasoedd mawr ond hefyd i Aberdaugleddau ac Aberystwyth a dangoswyd ffilm o'r trên stêm hwnnw yn pwffian ar ei thaith tua'r canolbarth. A'r *stesion master* yn codi het yn barchus ar y teithwyr. Onid ydy amser wedi newid!  Ac a wyddoch chi beth? Roedd hi'n bosib cael picnic ar riw'r jâl ar brynhawn Sul tawel, heb bron i un cerbyd amharu ar y llonyddwch!



"Y Gram", hynny yw Ysgol Ramadeg y Frenhines Elisabeth, oedd yr unig Ysgol Uwchradd yn y dre bryd hynny ac aeth Dr Walters â ni am daith a dangos yr adeilad, sydd heb newid rhyw lawer o'r olwg allanol. Profiad rhyfedd oedd gweld rhai o'r athrawon ar ffilm, rhai roeddwn i'n eu cofio pan oeddwn yn ddisgybl yno yn y 70au cynnar!  O'r Gram symudon i lawr at yr hen sinema, *Y Capitol*, ger y mart, lle mae Debenhams yn sefyll heddiw. Yna i mewn i'r dref i weld swyddfa John Francis ac yn ôl i weld y ffermwyr yn ysgwyd llaw wedi gwneud dêl yn y mart ar brynhawn dydd Mercher. Roedd y mart yn bwysig iawn i fasnach y dref gan fod poblogaeth y dref ar ddiwrnodau penodol yn chwyddo'n sylweddol ac o'r herwydd yn gyfle i'r busnesau eraill ffynnu. I lawr â ni wedyn i weld golygfa o eglwys San Pedr o gyfeiriad Stryd y Brenin gyda'r hen gerbydau cynnar ar ochr y stryd.

Dangoswyd lluniau o'r afon, rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i adeg y Rhyfel Byd cyntaf. Ac mewn un llun o'r gaeaf ym 1917 gwelwyd yr afon wedi'i

gorchuddio mewn haenen drwchus o iâ. Roedd yna brysurdeb mawr ar y cei yr adeg yma, gyda'r holl gychod yn mynd a dod a'r gweithwyr yn llwytho a dadlwytho'r cargo ynghyd â'r cyryglau a oedd yn un o nodweddion bywyd ger yr afon Tywi. Dylid cofio, cyn dyfodiad y rheilffyrdd, y byddai teithwyr yn medru ymweld â Bryste neu Gaerloyw ar gwch o Gaerfyrddin! Wrth edrych i fyny o'r cei gwelwyd yr hen Stryd y Cei sydd i bob pwrpas wedi diflannu erbyn heddiw a sawl tŷ wedi'I adeiladu ar y llechwedd hwnnw – megis pentre ynghanol y dref!

Roedd Caerfyrddin ynghyd â bod yn dref amaethyddol lewyrchus hefyd yn meddu ar ddiwydiannau. Ar safle Jewsons heddiw, roedd yna waith haearn ac alcam  a gafodd ei sefydlu tua 1760, yn cynhyrchu nwyddau trwm ar gyfer y ffermwyr ond roedd wedi cau erbyn dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn wir, roedd amrywiaeth fawr o gwmnïau'n cynhyrchu gwahanol eitemau ar gyfer y chwyldro arfaethedig yn y cymunedau. Cwmnïau fel *William Isaac and Son,* gwaith metel, y *Carmarthen Borough Works*, a hefyd y Tanerdy lle'r roedd crwyn gwartheg yn cael eu sychu i gynhyrchu lledr.



Mae gan Caerfyrddin ei siâr o adeiladau unigryw sef Banc Barclays yng nghanol y dre, yr hen Ysbyty yn Heol y Prior a'r Carchar a ddyluniwyd gan yr pensaer enwog Nash. Yna fe ddangoswyd lluniau o ardal Y Parêd lle mae sawl tŷ crand a nifer o'r rhai gwreiddiol yn dyddio o 1910 yna o hyd. Rhaid sôn am dŵr cloc enwog y farchnad sydd i'w gweld heddiw ger St John's Court. Trist yw nodi bod yr hen strydoedd sef Chapel Street a'r hen Gapel Wesle wedi diflannu i wneud lle i'r datblygiad newydd yng nghanol y dre.

Roedd yna siopau niferus iawn yn y dre a dangoswyd lluniau o siopau a busnesu sefydledig, teuluol, fel Edward Colby Evans 1881, Owen Jones, *Carmarthen Fruit Company Dark Gate,* siop esgidiau G. Oliver a *T Llywelyn Jones and Sons Emporium Guidhall Square* a oedd yn yn gwerthu nwyddau o bob math.

Ynghyd â'r rhain roedd y menwod gwerthu cocos a hen siop ddiddorol iawn yn Stryd y Bont yn gwerthu pysgod a chwningod a'r cyfan i'w gweld yn hongian y tu allan i'r siop yn yr awyr agored!

Roedd gan Caerfyrddin ei siâr o dafarndai hefyd. Dywedir bod yna ryw 96 o dafarndai yn y dre ym 1884 gydag enwau fel Y Sloop yn Island Wharf, Yr Angel Hotel, Y Royal Exchange ac wrth gwrs roedd tafarn Pen y Baedd a'r *Drovers* sydd i'w gweld heddiw yn adeiladau hanesyddol pwysig o ran bywyd a gwaith y dref.

Roedd y ffair geffylau a oedd yn ei hanterth yn y 1930au. Cynhaliwyd y ffair yn Heol Awst ac wrth edrych ar y lluniau, gwelwyd cannoedd o geffylau a phobl wedi ymgasglu yn sgwâr y dre gyda'r bwriad o daro bargen!



A rhaid oedd sôn am yr Hen Dderwen, sef y dderwen a blannwyd gyferbyn â Chapel y Priordy ym 1619 i gofio Siarl II. Bu'r goeden farw ym 1856 ac ym 1978 cafodd ei chludo'n gyfan i gartref newydd yn Neuadd San Pedr.

***NOSON WIRIONEDDOL*** ddiddorol oedd hon a braf yw gwybod bod hanes pwysig ein tref, tref hynaf Cymru, wedi'i gofnodi a'i gadw'n ddiogel ar gyfer y cenhedloedd i ddod. Gwnaed y diolchiadau gan y Parchedig Ddr Desmond Davies.

**Beth am droi at cyfundeb.com?**
**Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin**





**Y TYST**
**50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Tudur Dylan Jones a Myfanwy Jones am y lluniau'r mis hwn



## RHODD DDEFNYDDIOL




Mae'n siŵr bod nifer ohonoch wedi gweld y Bwrdd Emynau newydd sydd ar y llwyfan yn y Festri erbyn hyn.

Fel y gwyddoch, cafodd Capel Bethania yn Heol y Prior, lle bu'r Bwrdd Emynau am flynyddoedd lawer, ei ddatgorffori ychydig yn ôl. A rhodd yw'r Bwrdd gan yr aelodau hynny sydd wedi symud atom i'r Priordy. Afraid dweud ein bod yn falch iawn o'n cyfeillion newydd, yn diolch yn fawr iawn iddynt am eu ffyddlondeb ac yn hyderu'u bod wedi ymgartrefu'n dda yn ein plith.

Mae'r Bwrdd yn ddolen gyswllt rhwng y Priordy a Bethania gynt a diolch yn arbennig i Henry Wilkins am sicrhau llythrennu cain newydd yn y Gymraeg arno.

**CWIS CELF Y PRIORDY (RHAGFYR 2016) – ATEBION**
**OEDDECH CHI'N GYWIR?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Mona Lisa | Leonardo da Vinci |
| 2 | The Scream | Edvard Munch |
| 3 | The Persistence of Memory | Salvador Dali |
| 4 | Starry Night | Vincent van Gogh |
| 5 | Adeiladau ym Mhatagonia | Kyffin Williams |
| 6 | Awen Teifi | Aneurin Jones |
| 7 | Abereiddy | Wynne Jenkins |
| 8 | Marilyn Monroe | Andy Warhol |
| 9 | Y Dwylo | Albrecht Dürer |
| 10 | David Lloyd George | Augustus John |
| 11 | Mynd i'r Gêm | L S Lowry |
| 12 | Salem | Sydney Curnow Vosper |

***Diolch i Gareth Gravell am osod y dasg***



















# GAIR O DDIOLCH

**J Aeron Rees**
**Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr**
**Adran Addysg a Phlant**
**Adeilad 2 Parc Dewi Sant**
**Heol Ffynnon Jacob**
**Caerfyrddin SA31 3HB**

**Y Parchedig Beti-Wyn James**

**Annwyl Weinidog**

**APÊL TEGANAU NADOLIG 2016**

Er 2010, mae Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cefnogi a threfnu Apêl Teganau Nadolig er mwyn darparu ychydig o gymorth adeg y Nadolig i'r teuluoedd hynny sy'n wynebu anawsterau ariannol.

Nod yr Apêl yw helpu'r teuluoedd hynny a allai fod yn ei chael hi'n anodd prynu teganau newydd i'w plant adeg y Nadolig.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi ein diolch diffuant i'ch cynulleidfa am y rhodd garedig o deganau ac anrhegion a ddarparwyd gennych eleni.

Bydd mwy na 500 o blant a phobl ifainc yn elwa o'n Hapêl y Nadolig hwn a gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr iawn.

**Yn gywir**

**Susanne Jordan**

**Cydgysylltydd Gwasanaeth (Ieuenctid)**

# Y DIWEDDAR GILMOUR DAVIES

Trist oedd clywed am farwolaeth y diweddar Gilmour Davies a fu farw yn ei gartref yng Nglantywi, fore Sadwrn, 3 Rhagfyr, 2016.

Yn enedigol o Gaerfyrddin, dilynodd yrfa ddisglair gyda Chwmni Olew Shell Mex BP. Treuliodd ychydig o flynyddoedd yn byw yng Nghaerdydd cyn symud yn ôl i Gaerfyrddin ac ymgartrefu yng Nglantywi. Daeth yntau ac Elaine, ei briod, yn aelodau yn y Priordy a magwyd y tri mab yn yr Ysgol Sul. Wedi iddo ymddeol, ymgymerodd â'r gwaith pwysig o ymwneud â'r *Shell Better Britain Campaign for Wales,* cyfrifoldeb cymdeithasol a welodd ariannu nifer o brosiectau cymunedol yng Nghymru a Lloegr ac yn eu plith, Hen Gapel John Hughes ym Mhontrobert.

Roedd gan Gilmour ddiléit mawr mewn cerddoriaeth, a chofir yn arbennig yn yr ardal hon am y blynyddoedd hir o wasanaeth a roddodd yntau ac Elaine i waith gweinyddu'r arholiadau cerddorol ar ran yr *Associated Board for the Royal Schools of Music,* gwaith y bu iddynt ei gyflawni am 38 o flynyddoedd.

Bu'n aelod mewn nifer o gymdeithasau amrywiol yn yr ardal, y Clwb Garddio a'r Ford Gron i enwi ond dau ohonynt, gan gyfrannu hyd eithaf ei allu at fywyd pob un ohonynt.

Roedd ei deulu yn meddwl popeth iddo, ac roedd yn sicr yn dad balch i Roger, Peter a Richard gan ymfalchïo'n dawel yn eu llwyddiant yn eu hamrywiol feysydd. Yn dad yng nghyfratih a thad-cu hoffus, llawenydd mawr iddo oedd dysgu ychydig ddyddiau'n unig cyn ei farwolaeth am enedigaeth ei wyres fach newydd, Tirion Wyn.

Daeth cynulleidfa fawr i'w gynhebrwng yn Amlosgfa Llanelli brynhawn Gwener, 16 Rhagfyr, ar gyfer oedfa i gofio a diolch am ei fywyd. Arweiniwyd yr oedfa gan ei Weinidog. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Elaine, ei briod, y meibion a'u teuluoedd.

***Beti-Wyn James***

# RHWYDWAITH

***AR DDECHRAU*** blwyddyn ein braint yw croesawu tri baban. Ar 20 Rhagfyr, ganwyd Aron Celt, yn fab i Catrin a Tim Reading, Glan y Fferi. Mae'n frawd bach i Emily, Efan a Llew. Hefyd ar 22 Tachwedd, daeth Tirion Wyn i'r byd, yn wyres i Elaine a'r diweddar Gilmour Davies, Glantywi, ac yn blentyn cyntaf i Peter a Sara yng Nghaerffili. Yna ar 28 Rhagfyr ganwyd Erin Hana i Non a Carwyn Edwards, Bryncothi, Pumsaint, yn wyres i'r Parchedig W J a Gwenda Edwards, ein cyn-weinidog a'i briod, a Dewi a Val Edwards, Maesmoi, Pumsaint. Gwyn fyd y tri theulu bach a phob bendith arnynt.



Mae rhai o'r Priordy wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Treuliodd David Lloyd amser yn Ysbyty Glangwili, a chafodd Myfanwy Jones, Golygfa Deg, driniaeth yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli. Cafodd Mair Lewis, Hafod Cwnin, driniaeth i'w llygaid. Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r tri.

Dymuniadau da oddi wrth bawb yn y Priordy i Iris Griffiths sydd newydd symud o Dŷ Rhys i Gartref Plas y Dderwen. Hyderwn y bydd yn ymgartrefu'n dda ac yn cael pob gofal.

Os gwelsoch chi Dai Jones ar raglen **Cefn Gwlad** ar **S4C** ar Ŵyl San Steffan, byddwch yn gwybod mai cymuned Llansilin ym Mhowys a'r côr sydd yno oedd canolbwynt y rhaglen. Ond dyna brofiad pleserus a gafodd Myfanwy a Gwilym Jones wrth wylio, oherwydd roedd brawd Myfanwy yn cael ei holi, a rhan o'r rhaglen wedi'i ffilmio yn eu hen gartref! Anrheg Nadolig hwyr arbennig!

Da oedd gweld hanes ein gwasanaeth Nadolig yma yn y Priordy ynghyd â llun yn y **Carmarthen Journal** ac yn y **Tyst.** Llun da, hefyd! Ac mae'n dda cael dweud bod Gwasanaeth Carolau **Cylch Meithrin Caerfyrddin** 2016 a gynhaliwyd yn y Priordy wedi bod yn llwyddiant. Un o'r Priordy yw Cadeirydd y cylch eleni, sef y Dr Llinos Roberts Williams, a dymunwn yn dda iddi gyda'r gwaith pwysig hwn am weddill ei thymor.

***AC I GLOI***, dymuniadau gorau i bawb ar gyfer 2017! Blwyddyn Newydd Dda iawn i bob un o'n darllenwyr!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i'n Gweinidog ☎ 01267 neu Tina Charles ☎ 01267 236037**

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| IONAWR | | CHWEFROR | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Sulwyn Thomas | Adrian Evans | Sulwyn Thomas | Adrian Evans |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 1<br>15<br>29 | Elinor W Reynolds<br>Hilary Kynaston<br>Chris Lloyd | Chwefror | 12<br>26 | Catrin Haf Williams<br>Gwasanaeth Gŵyl Dewi |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | 1 | Bore | Alison a Ffion Parsons |
| Chwefror | 5 | Bore | Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones |

## YMWELWYR

| | |
|---|---|
| Ionawr / Chwefror | Janet Davies a Gloria Evans |

## DARLLENWYR IONAWR / CHWEFROR 2017

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 1 | Elis Jones | Chwefror | 5 | Gill Owen |
| | 15 | Catrin Heledd Jones | | 12 | Huw Michael |
| | 22 | Tudur Dylan Jones | | 19 | Gareth Gravell |
| | 29 | Carys Morgans | | | |

| CYMDEITHAS Y CYMOD | |
|---|---|
| Nos Fawrth<br>10 Ionawr 2017 | Trefnu 2017-18<br>Cyfarfod Pwyllgor – Croeso i Aelodau Newydd<br>Festri'r Tabernacl |
| | |
| Nos Lun<br>13 Chwefror 2017 | Gweithgaredd Arddangosfa '*Cred a Gweithred'*<br>Yr Atom gyda Chymru dros Heddwch |

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | **1** | *Bore*<br><br>*Hwyr* | Oedfa yng ngofal Capel Bancyfelin gyda'n Gweinidog<br>Ein Gweinidog | **Cymun** |
| | **8** | *Bore*<br><br><br>*Hwyr* | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog. Paned wedi'r oedfa a Ffion yn torri'i gwallt.<br>Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa gyda'r Parchedig Wynn Vittle | |
| | **15** | *Bore*<br>*P'nawn*<br><br>*Hwyr* | Y Parchedig Ddr Noel Davies<br>Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gyda'r Parchedig Ddr Noel Davies<br>Oedfa dan nawdd Cytûn yn Eglwys San Pedr am 5.00 ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol gyda'r Parchedig Ddr Noel Davies | |
| | **22** | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | **29** | *Bore* | Ein Gweinidog | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Chwefror** | **5** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni | **Cymun** |
| | **12** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa yng ngofal y Diaconiaid | |
| | **19** | *Bore*<br>*P'nawn* | Y Parchedig Ddr Desmond Davies<br>Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Ddr Desmond Davies | |
| | **26** | *Bore*<br><br><br>*Hwyr* | Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng nghwmni'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 yn y Priordy<br>Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng ngofal Gweinidogion ac Offeiriaid y dref am 5.00 yn Elim | <br><br><br>**Cymun** |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul EH-Erw Hir CP – Cwrdd Plant GD - Gwasanaeth Gŵyl Dewi (Y Priordy) - Dim Ysgol Sul**

| **IONAWR** | | | | | **CHWEFROR** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **8** | **15** | **22** | **29** | **5** | **12** | **19** | **26** |
| **-** | **CP** | ✓ | **EH** | ✓ | ✓ | ✓ | **-** | **GD** |

**OEDFA YSTWYLL**
**CAPEL CANA – NOS SADWRN, 7 IONAWR 2017 – 6 O'R GLOCH**